Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

cynhyrchwch ef – gwerthwch ef – ailgylchwch ef

Rheolau newydd ar gyfer cynhyrchwyr offer trydanol ac electronig

Ydych chi'n barod am y Rheoliadau OTEG (WEEE)?

Beth fydd yn digwydd?

O Ionawr 2007 bydd gennych reoliadau newydd er mwyn mynd i'r afael â'r cyfaint cynyddol o offer trydanol ac electronig gwastraff (OTEG). Bydd y Rheoliadau OTEG hyn yn berthnasol i bob cwmni sy'n mewnforio, cynhyrchu neu ail-frandio offer trydanol yn y DU. Bydd yn rhaid i chi dalu am drin, adennill a gwaredu OTEG.

Mae'r rheoliadau hefyd yn effeithio ar bawb sy'n defnyddio, gwerthu, trin neu waredu OTEG. Argymhellwn eich bod yn darllen y cyfarwyddyd sydd ar gael oddi wrth yr Adran Diwydiant a Masnach (DTI) er mwyn i chi ddyfod yn gyfarwydd â'r rheoliadau a'ch rhwymedigaethau.

Bob blwyddyn bydd y DU'n taflu oddeutu 2 filiwn tunnell fetrig o OTEG. Dyma un o'r ffrydiau gwastraff sy'n tyfu gyflymaf yn y DU a'r UE. Yn 2003, mabwysiadodd yr UE y Gyfarwyddeb OTEG er mwyn delio â'r gwastraff hwn. Caiff mwy o wastraff ei gasglu er mwyn ei drin a'i waredu a bydd llai ohono'n mynd i safleoedd tirlenwi.

Beth sydd angen i chi ei wneud

Cofrestru gyda chynllun cydymffurfio

Gelwir pob cwmni yn y DU sy'n cynhyrchu, mewnforio neu ail-frandio offer trydanol ac electronig (a elwir yn OTE (EEE)[1]) yn gynhyrchwr a bydd angen iddynt ymuno â chynllun cydymffurfio cymeradwy ar gyfer cynhyrchwyr erbyn **15 Mawrth 2007**. Er mwyn gwneud hyn bydd angen i chi dalu ffi cofrestru i'r cynllun a darparu data ynghylch faint o offer trydanol ac electronig rydych yn ei roi ar y farchnad bob blwyddyn galendr. Bydd angen i chi ddweud yn ogystal p'un ai ar gyfer ei ddefnyddio yn y cartref neu ar gyfer busnes y bu ichi gyflenwi'r offer. Cewch rif cofrestru cynhyrchwr OTEG y bydd yn rhaid i chi ei roi i unrhyw un sy'n dosbarthu neu'n gwerthu eich offer.

Trin, adennill a gwaredu

Bydd angen i chi dalu'r costau sy'n gysylltiedig â thrin, adennill a gwaredu OTEG peryglus **o 1 Ebrill 2007** a phob OTEG **o 1 Gorffennaf 2007**. Mae gofynion ar wahân yn bodoli os ydych yn cyflenwi offer trydanol ac electronig nad yw ar gyfer y cartref, er enghraifft i fusnesau. Gall eich cynllun cydymffurfio eich cynghori ymhellach ynghylch sut i wneud hyn. Bydd cyfarwyddyd y DTI hefyd yn egluro eich cyfrifoldebau.

Marciwch eich cynhyrchion

Bydd angen i chi farcio pob cynnyrch trydanol newydd rydych yn ei osod ar farchnad **o 1 Ebrill 2007** gyda'r symbol bin sbwriel ar olwynion wedi'i groesi allan a nod adnabod y cynhyrchwr. Byddwch yn gwneud hyn eisoes os ydych yn cyflenwi cynhyrchion i wladwriaethau Ewropeaidd eraill.



[2]

Statws cyfredol rheoliadau

Seilir y dyddiadau yn y ddalen ffeithiau hon ar reoliadau drafft a gyhoeddwyd gan y DTI yng Ngorffennaf 2006. Yn ddarostyngedig i ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch y rheoliadau drafft, mae'n debygol y caiff y Gyfarwyddeb OTEG ei throi'n gyfraith yn y DU yn Ionawr 2007. Rhoir y wedd derfynol bryd hynny ar y dyddiadau a welir yma. Tan y daw'r rheoliadau hyn i rym, nid yw cynhyrchwyr OTE yn y Deyrnas Unedig dan unrhyw rwymedigaethau. Fodd bynnag, argymhellwn eich bod yn cynllunio o flaen llaw oherwydd mae'n debygol mai ychydig o amser a geir rhwng y rheoliadau'n dod i rym a dechrau eich rhwymedigaethau.

Bydd y llywodraeth ac adrannau gweinyddol datganoledig yn cyhoeddi cyfarwyddyd ynghylch y rheoliadau OTEG (WEEE). Bydd hyn yn eich helpu i ddeall beth sydd angen i chi ei wneud. Mae cyfarwyddyd drafft ar gael yn awr oddi wrth gwefan y DTI.

Beth sydd angen i chi ei wneud nesaf

- Dechrau casglu data ynghylch yr OTE a roddasoch ar y farchnad yn ystod 2006 fel bod yr wybodaeth yn barod gennych.
- Penderfynu pa gynllun cydymffurfio i ymuno ag ef. Medrwch chwilio'r Rhyngrwyd am gynlluniau potensial a fedrant wneud cais i ni am gymeradwyaeth ac sydd, o bosib, yn chwilio am aelodau i'w recriwtio. Defnyddiwch yr ymadrodd chwilio, *"WEEE Compliance Scheme"*. Bydd cynlluniau cydymffurfio cymeradwy yn dechrau gweithredu o Chwefror 2007 a byddwn yn cyhoeddi rhestr ohonynt.
- Medrech, yn ogystal, redeg eich cynllun eich hunan.

Ble i ddarganfod mwy

Mae gan yr Adran Diwydiant a Masnach ddigonedd o wybodaeth i'r funud a manwl ar ei gwefan: **www.dti.gov.uk/innovation/sustainability/weee/page30269.html**

Medrwch hefyd gaffael mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau oddi wrth ein gwefan ni: **www.environment-agency.gov.uk/weee**

Ceir yno gysylltau i gwestiynau a ofynnir yn aml a rhestr o ddigwyddiadau, seminarau a gweithdai y medrech eu mynychu er mwyn darganfod mwy.

Ceir gwybodaeth yn ogystal ar wefan NetRegs: **www.netregs.gov.uk**

Medrwch ein galw ar: **08708 506 506**
neu anfon neges e-bost at: **enquiries@environment-agency.gov.uk**

[1] Mae'r rheoliadau'n berthnasol i'r OTE canlynol:cyfarpar ar gyfer y tŷ, offer TG a telathrebu, offer traul, goleuadau, arfau, teganau, offer hamdden a chwaraeon, taclau monitro a rheoli a pheiriannau gwerthu awtomatig. Mae rhai eithriadau'n berthnasol.

[2] Mae defnyddio'r logo hwn yn ddarostyngedig i BS EN 50419

GEHO1006BLOA-B-P

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

make it – sell it – recycle it

New rules for producers of electrical & electronic equipment

Are you ready for the WEEE Regulations?

What's going to happen?

From January 2007 you will have new regulations to tackle the growing amount of waste electrical and electronic equipment (WEEE). These WEEE Regulations will apply to all companies who import, manufacture or re-brand electrical equipment in the UK. You will have to finance the treatment, recovery and disposal of WEEE.

These regulations also affect everyone who uses, sells, treats or disposes of WEEE. We recommend you read the guidance available from the Department of Trade and Industry (DTI) so you become familiar with the regulations and your obligations.

Every year the UK throws away around 2 million tonnes of WEEE. It is one of the fastest growing waste streams in the UK and the EU. In 2003, the EU adopted the WEEE Directive to deal with this waste. More waste will be collected for treatment and recovery and less will go to landfill.

What you need to do

Register with a compliance scheme

Every company in the UK that manufactures, imports or re-brands electrical and electronic equipment (known as EEE[1]) is called a producer and will need to join an approved producer compliance scheme by **15 March 2007**. To do this you will need to pay a registration fee to the scheme and supply data on how much electrical and electronic equipment you place on the market each calendar year. You also need to say whether you supplied the equipment for household or business use. You will get a WEEE producer registration number that you will need to give to anyone who distributes or sells your equipment.

Treatment, recovery and disposal

You will need to finance the costs associated with the treatment, recovery and disposal of hazardous WEEE **from 1 April 2007** and all WEEE **from 1 July 2007**. There are separate requirements if you supply non-household electronic and electrical equipment, for example to businesses. Your compliance scheme will be able to advise you further on how to do this. DTI's guidance will also explain your responsibilities.

Marking your products

You will need to mark all new electrical products you place on the market **from 1 April 2007** with the crossed out wheeled bin symbol (image) and a producer identification mark. You will already be doing this if you supply products to other European states.



[2]

Current status of regulations

The dates in this fact sheet are based on draft regulations the DTI published in July 2006. Subject to the results of the consultation on the draft regulations, it's likely the WEEE Directive will be turned into UK law in January 2007. The dates given here will be finalised then. Until these regulations come into force, producers of EEE in the United Kingdom are not under any obligations. However, we recommend that you plan ahead as there is likely to be only a short time between regulations coming into force and the start of your obligations.

The Government and devolved administrations will publish guidance on the WEEE regulations. This will help you understand what you need to do. Draft guidance is currently available from the DTI's website.

What you need to do next

- Start collecting data on the EEE you placed on the market during 2006 so you have this information ready.
- Decide which compliance scheme to join. You can search the Internet for potential schemes that may apply to us for approval and may be looking to recruit members. Use the search term, *"WEEE Compliance Scheme"*. Approved compliance schemes will start operating from February 2007 and we will publish a list of them.
- You could also run your own scheme.

Where to find out more

The Department of Trade and Industry has lots of up-to-date and in-depth information on its website: **www.dti.gov.uk/innovation/sustainability/weee/page30269.html**

You can also get more information on the regulations from our website: **www.environment-agency.gov.uk/weee**

There are links to frequently asked questions and a list of events, seminars and workshops you could attend to find out more.

There is also information on NetRegs website: **www.netregs.gov.uk**

You can phone us: **08708 506 506**
or email us: **enquiries@environment-agency.gov.uk**

[1] The regulations apply to the following EEE: household appliances, IT and telecommunications equipment, consumer equipment, lighting, tools, toys, leisure and sports equipment, monitoring and control instruments and automatic dispensers. Some exclusions apply.

[2] Usage of this logo is subject to BS EN 50419

GEHO1006BLOA-B-P